CPS

Y Côd

ar gyfer Erlynwyr y Goron

Ionawr 2013

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Egwyddorion Cyffredinol 3

Y Penderfyniad P'un ai i Erlyn neu Beidio 4

Y Prawf Cod Llawn 6

- Y Cam Tystiolaeth 6
- Cam Lles y Cyhoedd 7

Y Prawf Trothwy 11

- Pryd y gellir defnyddio'r Prawf Trothwy 11
- Rhan gyntaf y Prawf Trothwy – a oes amheuaeth resymol? 11
- Ail ran y Prawf Trothwy - a oes modd casglu tystiolaeth ychwanegol i gael siawns realistig o euogfarn? 12
- Adolygu'r Prawf Trothwy 12

Dewis Cyhuddiadau 13

Ymdrin ag Achosion y Tu Allan i'r Llys 14

Dull y Treial 15

- Lleoliad ar gyfer treial mewn achosion yn ymwneud â phobl ifanc 15

Derbyn Pleon Euog 16

Ailystyried Penderfyniad i Erlyn 17

Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) dan adran 10 o Ddeddf Erlyn Troseddau 1985. Dyma seithfed argraffiad y Cod ac mae'n disodli'r fersiynau blaenorol.

1.2 Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron, sef y prif wasanaeth erlyniadau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gweithredu'n annibynnol, dan oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y CPS.

1.3 Mae'r Cod yn rhoi arweiniad i erlynwyr am yr egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau. Cyhoeddir y Cod yn bennaf ar gyfer erlynwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Ond mae erlynwyr eraill yn dilyn y Cod un ai drwy gonfensiwn neu oherwydd bod yn rhaid iddynt wneud hynny yn ôl y gyfraith.

1.4 Yn y Cod hwn, defnyddir y term "y sawl a ddrwgdybir" i ddisgrifio unigolyn nad yw eto yn destun achos troseddol ffurfiol; defnyddir y term "diffynnydd" i ddisgrifio unigolyn sydd wedi cael ei gyhuddo neu ei wysio; a defnyddir y term "troseddwr" i ddisgrifio unigolyn sydd wedi cyfaddef ei fod yn euog i swyddog o'r heddlu neu erlynydd neu ymchwilydd arall, neu sydd wedi'i gael yn euog mewn llys barn.

Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Mae'r penderfyniad i erlyn neu i argymell ymdrin â'r achos y tu allan i'r llys yn gam difrifol sy'n effeithio ar y rhai a ddrwgdybir, y dioddefwyr,tystion a'r cyhoedd, a rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw â'r gofal mwyaf.

2.2 Mae'n ddyletswydd ar erlynwyr i sicrhau bod yr unigolyn iawn yn cael ei erlyn am y trosedd iawn a dod â throseddwyr gerbron eu gwell ble bynnag y bo modd. Mae penderfyniadau gwaith achos a wneir yn deg, yn ddiduedd ac yn onest yn helpu i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd. Rhaid i erlynwyr sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n briodol; bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno gerbron y llys; ac y cydymffurfir â dyletswyddau datgelu.

2.3 Er bod yn rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau ei hun ac yn ôl ei rinweddau ei hun, y mae yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol ymhob achos.

2.4 Rhaid i erlynwyr fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, anabledd, oed, crefydd neu gred, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y sawl a ddrwgdybir, y dioddefwr neu unrhyw dyst ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Ni ddylai pwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell ychwaith effeithio ar erlynwyr. Rhaid i erlynwyr weithredu bob amser er budd cyfiawnder, ac nid dim ond er mwyn cael rhywun yn euog.

2.5 Mae'r CPS yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol, gyfredol. Mae erlynwyr yn gorfod cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon.

2.6 Rhaid i erlynwyr weithredu egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998, ar bob cam o achos.Hefyd mae rhaid i erlynwyr gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol; â'r Rheolau Gweithdrefn Droseddol sydd mewn grym ar hyn o bryd; ac ystyried yr ymrwymiadau sy'n codi o gonfensiynau rhyngwladol.Mae rhaid iddynt ddilyn polisïau a chyfarwyddyd y CPS a gyhoeddir ar ran y DPP ac sydd ar gael i'r cyhoedd i'w gweld ar wefan y CPS http://www.cps.gov.uk

Y Penderfyniad P'un ai i Erlyn neu Beidio

3.1 Mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth, erlynwyr sy'n penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o gyflawni trosedd ac, os dylid, pa drosedd sy'n briodol. Maent yn gwneud eu penderfyniadau yn unol â'r Cod hwn a Chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar Gyhuddo. Mae'r heddlu'n gweithredu'r un egwyddorion wrth benderfynu a ddylid cychwyn achos troseddol yn erbyn unigolyn yn yr achosion hynny y maent hwy'n gyfrifol amdanynt.

3.2 Yr heddlu ac ymchwilwyr eraill sy'n gyfrifol am gynnal ymholiadau i unrhyw drosedd honedig ac am benderfynu sut i ddefnyddio'u hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau i gychwyn ymchwiliad neu i barhau ag ymchwiliad ac ar gwmpas yr ymchwiliad. Mae erlynwyr yn aml yn cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill am ymholiadau posibl a gofynion tystiolaeth, ac yn helpu gyda'r gweithdrefnau cyn cyhuddo. Mewn ymchwiliadau mawr efallai y gofynnir i'r erlynydd roi cyngor ar y strategaeth ymchwilio gyffredinol, gan gynnwys penderfyniadau i fireinio neu gwtogi cwmpas yr ymddygiad troseddol a nifer y rhai a ddrwgdybir sy'n destun ymchwiliad. Gwneir hyn er mwyn helpu'r heddlu ac ymchwilwyr eraill i gwblhau'r ymchwiliad mewn amser rhesymol ac i sicrhau bod gan yr erlyniad yr achos mwyaf effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff erlynwyr gyfarwyddo'r heddlu ac ymchwilwyr eraill.

3.3 Dylai erlynwyr nodi gwendidau yn y dystiolaeth ac, os oes modd, eu cywiro, ond, yn amodol ar y Prawf Trothwy (gweler adran 5), dylent weithredu ar unwaith i atal achos nad yw'n bodloni cam tystiolaeth y Prawf Cod Llawn (gweler adran 4) ac na ellir ei gryfhau drwy ragor o ymchwilio, neu lle mae'n amlwg nad oes yn rhaid cael erlyniad er lles y cyhoedd (gweler adran 4). Er bod erlynwyr yn ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarperir gan yr heddlu ac ymchwilwyr eraill yn bennaf, caiff y sawl a ddrwgdybir neu'r rheini sy'n gweithredu ar ei ran hefyd gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth i'r erlynydd drwy gyfrwng yr heddlu neu ymchwilwyr eraill, cyn cyhuddo, i helpu'r erlynydd i wneud ei benderfyniad.

3.4 Dim ond pan fydd yr achos wedi pasio dau gam y Prawf Cod Llawn (gweler adran 4) y caiff erlynwyr gychwyn neu barhau ag erlyniad. Yr eithriad yw pan ellir gweithredu'r Prawf Trothwy (gweler adran 5) lle cynigir gwneud cais i'r llys i gadw'r sawl a ddrwgdybir yn y ddalfa ar ôl ei gyhuddo, ac nad yw'r dystiolaeth sy'n ofynnol i weithredu'r Prawf Cod Llawn ar gael eto.

3.5 Ni ddylai erlynwyr gychwyn neu barhau ag erlyniad y byddai'r llysoedd yn ei ystyried fel un gormesol neu annheg sy'n camddefnyddio proses y llys.

3.6 Mae erlynwyr yn adolygu pob achos y maent yn ei dderbyn gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill. Mae adolygu'n broses barhaus a rhaid i erlynwyr dalu sylw i unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n digwydd wrth i'r achos ddatblygu, gan gynnwys yr hyn sy'n dod yn hysbys ynghylch achos yr amddiffyniad. Lle bo modd, dylent siarad â'r ymchwilydd pan fyddant yn ystyried newid y cyhuddiadau neu atal yr achos. Mae erlynwyr ac ymchwilwyr yn

cydweithio'n agos, ond mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am benderfynu p'un ai a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio'n aros gyda'r CPS.

3.7 Mae'r Senedd wedi penderfynu mai dim ond gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y dylai nifer cyfyngedig o droseddau gael eu dwyn i'r llys. Fe'u gelwir yn achosion caniatâd. Yn y fath achosion mae'r DPP neu erlynwyr sy'n gweithredu ar ei ran ef neu hi yn defnyddio'r Cod wrth benderfynu p'un ai a ddylid rhoi caniatâd i erlyn neu beidio. Hefyd dim ond gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol y dylai rhai troseddau gael eu dwyn i'r llys. Rhaid i erlynwyr ddilyn y canllawiau cyfredol wrth gyfeirio unrhyw achosion o'r fath at y Twrnai Cyffredinol. Hefyd, bydd y Twrnai Cyffredinol yn cael gwybod yn gyson am rai achosion fel rhan o'i rôl yn goruchwylio Gwasanaeth Erlyn y Goron a'i atebolrwydd i'r Senedd am ei weithredoedd. Ar ben hynny, bydd y Twrnai Cyffredinol yn dal i gael ei hysbysu o achosion penodol fel rhan o'i oruchwyliaeth ef neu hi o'r CPS ac atebolrwydd i'r Senedd am ei weithredoedd.

Y Prawf Cod Llawn

4.1 Mae dau gam i'r Prawf Cod Llawn: (i) y cam tystiolaeth; yn cael ei ddilyn gan (ii) y cam lles y cyhoedd.

4.2 Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau ac ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael y dylai'r erlynwyr benderfynu a ddylid erlyn neu beidio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd yn amlwg, cyn casglu ac ystyried yr holl dystiolaeth debygol, nad oes angen erlyn er lles y cyhoedd. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd erlynwyr yn penderfynu na ddylai'r achos barhau.

4.3 Dim ond pan fyddant yn fodlon bod ehangder cyffredinol y troseddoldeb wedi'i bennu ac y gallant wneud asesiad cwbl gytbwys o les y cyhoedd ddylai erlynwyr wneud penderfyniad o'r fath. Os nad oes gan erlynwyr ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r ymchwiliad fynd yn ei flaen a phenderfynu'n ddiweddarach yn unol â'r Prawf Cod Llawn a ddisgrifir yn yr adran hon.

Y Cam Tystiolaeth

4.4 Rhaid i erlynwyr fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth ar gael i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob un o'r rhai a ddrwgdybir ar bob cyhuddiad. Mae rhaid iddynt ystyried beth all achos yr amddiffyniad fod, a sut mae'n debygol o effeithio ar y posibilrwydd o ennill euogfarn. Ni ddylai achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaethol hwn fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

4.5 Mae'r casgliad bod gobaith realistig y ceir euogfarn yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol yr erlynydd o'r dystiolaeth, gan gynnwys effaith unrhyw amddiffyniad ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r sawl a ddrwgdybir wedi'i gyflwyno neu y gall ef neu hi fod yn dibynnu arno. Mae'n golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun mewn modd gwrthrychol, diduedd a rhesymol, ar ôl cael eu cyfarwyddo'n briodol ac yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol eu hunain ei ddefnyddio. Dim ond os yw'n sicr fod y diffynnydd yn euog y gall llys roi euogfarn.

4.6 Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, dylai erlynwyr ofyn y canlynol iddynt eu hunain:

A ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw amheuon ynghylch derbynioldeb tystiolaeth benodol.Wrth wneud hynny, dylai erlynwyr asesu:

a) y tebygolrwydd y bydd y dystiolaeth honno'n annerbyniadwy i'r llys; a
b) phwysigrwydd y dystiolaeth honno mewn cysylltiad â'r dystiolaeth fel cyfanwaith.

Ydy'r dystiolaeth yn ddibynadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i amau bod y dystiolaeth yn ddibynadwy, cywirdeb neu uniondeb y dystiolaeth.

Ydy'r dystiolaeth yn gredadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i amau credadwyedd y dystiolaeth.

Cam Lles y Cyhoedd

4.7 Ym mhob achos pan fo tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad, mae'n rhaid i erlynyddion fynd yn eu blaenau i ystyried a oes angen erlyniad neu beidio er lles y cyhoedd.

4.8 Nid yw erioed wedi bod yn rheol y bydd erlyniad yn digwydd fel mater o drefn ar ôl cwrdd â'r cam tystiolaethol. Bydd erlyniad fel arfer yn digwydd oni bai fod yr erlynydd yn sicr fod yna ffactorau lles y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai sydd o blaid. Mewn rhai achosion efallai y bydd yr erlynydd yn fodlon y gellir gwasanaethu lles y cyhoedd yn gywir trwy gynnig cyfle i'r diffynnydd gael delio â'r mater gyda phenderfyniad tu allan i'r llys yn hytrach na dwyn erlyniad.

4.9 Wrth benderfynu ar les y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried pob un o'r cwestiynau isod ym mharagraff 4.12 a) i g) er mwyn canfod a phennu'r ffactorau lles y cyhoedd perthnasol sy'n cyfrannu at y penderfyniad i erlyn neu beidio. Dylai'r ffactorau hyn, ynghyd ag unrhyw ffactorau lles y cyhoedd a gyflwynir mewn cyfarwyddyd neu bolisi perthnasol a gyhoeddir gan y DPP, alluogi erlynwyr i ffurfio asesiad cyffredinol ynghylch lles y cyhoedd.

4.10 Mae'r testun esboniadol o dan bob cwestiwn ym mharagraffau 4.12 a) i g) yn rhoi arweiniad i erlynwyr wrth ystyried pob cwestiwn a phenderfynu a yw'n nodi ffactorau lles y cyhoedd o blaid neu yn erbyn erlyn. Nid yw'r cwestiynau'n gynhwysfawr ac efallai nad yw bob cwestiwn yn berthnasol ymhob achos. Bydd y pwysiant i'w roi i bob un o'r cwestiynau, a'r ffactorau a bennir, yn amrywio hefyd yn unol â ffeithiau a rhinweddau pob achos.

4.11 Mae'n ddigon posibl y gallai un ffactor lles y cyhoedd gario mwy o bwysau na nifer o ffactorau eraill sy'n ffafrio'r trywydd arall. Er y gall fod ffactorau lles y cyhoedd yn ffafrio peidio ag erlyn mewn achos penodol, dylai erlynwyr ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad beth bynnag a chyflwyno'r ffactorau hynny gerbron y llys i gael eu hystyried wrth ddedfrydu.

4.12 Dylai erlynwyr ystyried pob un o'r cwestiynau canlynol:

a) Pa mor ddifrifol yw'r trosedd a gyflawnwyd?

Po fwyaf difrifol y trosedd, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.

Wrth benderfynu ar lefel difrifoldeb y trosedd a gyflawnwyd, ymysg y ffactorau i'w hystyried dylai erlynwyr gynnwys beiusrwydd y sawl a ddrwgdybir a'r niwed i'r dioddefwr drwy ofyn cwestiynau b) ac c) iddynt hwy eu hunain.

b) Beth yw lefel beiusrwydd y sawl a ddrwgdybir?

Po fwyaf yw beiusrwydd y sawl a ddrwgdybir, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.

Mae'n debyg y bydd beiusrwydd yn cael ei bennu gan lefel ymwneud y sawl a ddrwgdybir; i ba raddau oedd y trosedd wedi'i ragfwriadu a/neu ei gynllunio; a oes ganddo euogfarnau troseddol blaenorol a/neu faterion wedi cael sylw y tu allan i'r llys ac a fu'n troseddu tra oedd ar fechnïaeth; neu tra'n destun gorchymyn llys; a oedd neu a yw'r troseddu'n debygol o barhau, gael ei ailadrodd neu ddwysáu; ac oed neu aeddfedrwydd y sawl a ddrwgdybir (gweler paragraff d) isod ar gyfer y rhai o dan 18).

Wrth ystyried beiusrwydd, dylai erlynwyr hefyd ystyried a yw neu a oedd y sawl a ddrwgdybir yn dioddef o unrhyw salwch corfforol neu feddyliol sylweddol adeg y trosedd gan y gall hyn mewn rhai amgylchiadau olygu ei bod yn llai tebygol y bydd angen erlyniad. Fodd bynnag, bydd angen i erlynwyr hefyd ystyried pa mor ddifrifol oedd y trosedd, a yw'n debygol y bydd yn cael ei ailadrodd a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd neu'r rheini sy'n darparu gofal i'r cyfryw bobl.

c) Beth yw amgylchiadau'r dioddefwr a beth yw'r niwed a achoswyd iddo?

Mae amgylchiadau'r dioddefwr yn berthnasol iawn. Po fwyaf yw bregusrwydd y dioddefwr, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad. Mae hyn yn cynnwys lle mae sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod yn bodoli rhwng y sawl a ddrwgdybir a'r dioddefwr.

Mae erlyniad yn fwy tebygol hefyd os yw'r trosedd wedi'i gyflawni yn erbyn dioddefwr a oedd ar y pryd yn gwasanaethu'r cyhoedd.

Rhaid i erlynwyr hefyd ystyried a gafodd y trosedd ei ysgogi gan wahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gred, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd y dioddefydd; neu os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi bod yn elyniaethus tuag at y dioddefydd ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny. Mae presenoldeb gelyniaeth neu ysgogiad o'r fath yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd angen erlyniad.

Wrth benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegir gan y dioddefydd am yr effaith y mae'r trosedd wedi'i chael arno. Mewn achosion priodol, gall hyn hefyd gynnwys barnau teulu'r dioddefwr.

Rhaid i erlynwyr hefyd ystyried a fydd erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefydd, gan gadw difrifoldeb y trosedd mewn cof ar bob adeg. Os oes tystiolaeth y bydd erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd y dioddefwr, efallai y bydd hyn yn gwneud erlyniad yn llai tebygol, gan ystyried safbwynt y dioddefwr.

Fodd bynnag, nid yw'r CPS yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu eu teuluoedd yn yr un modd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, ac mae'n rhaid i'r erlynwyr sefydlu barn gyffredinol o'r achos lles y cyhoedd.

d) A oedd y sawl a ddrwgdybir o dan oedran 18 ar adeg y trosedd?

Dan y gyfraith, mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn wahanol i oedolion a rhaid rhoi cryn bwys ar oed y sawl a ddrwgdybir os yw yn blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed.Rhaid i fuddiannau a lles gorau'r plentyn neu berson ifanc gael eu hystyried gan gynnwys a fydd erlyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar ei ragolygon/rhagolygon i'r dyfodol sy'n anghymesur â difrifoldeb y troseddu. Rhaid i erlynwyr ystyried prif nod y system cyfiawnder ieuenctid sef atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Hefyd mae rhaid i erlynwyr ystyried yr ymrwymiadau sy'n codi dan Gonfensiwn 1989 y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Fel man cychwyn, po ieuengaf yw'r sawl a ddrwgdybir, lleiaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.

Ond, efallai y ceir amgylchiadau sy'n golygu bod erlyniad er lles y cyhoedd er gwaetha'r ffaith bod y sawl a ddrwgdybir o dan 18. Mae'r rhain yn cynnwys trosedd difrifol, record flaenorol y sawl a ddrwgdybir yn awgrymu nad oes dewis addas arall ond erlyniad, neu lle mae diffyg cyfaddefiad yn golygu nad oes modd datrys yr achos y tu allan i'r llys drwy ddulliau a allai fod wedi rhoi sylw i ymddygiad troseddol.

e) Beth yw'r effaith ar y gymuned?

Po fwyaf yw effaith y troseddu ar y gymuned, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, dylai erlynwyr ystyried y ffaith bod cymuned yn derm cynhwysol ac nas cyfyngir i gymunedau a ddiffinir gan leoliad.

f) Ydy erlyniad yn ymateb cymesur?

Dylai erlynwyr hefyd ystyried a yw erlyniad yn gymesur â'r canlyniad tebygol, ac wrth wneud hynny efallai y bydd y canlynol yn berthnasol i'r achos dan sylw:

- Y gost i'r CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, yn enwedig lle gellid ystyried bod y gost yn ormodol o'i gymharu ag unrhyw gosb debygol. (Ni ddylai erlynwyr wneud penderfyniad ynghylch lles y cyhoedd ar sail y ffactor hwn yn unig. Mae'n hanfodol hefyd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffactorau lles y cyhoedd a fydd yn cael eu pennu wrth ystyried y cwestiynau eraill ym mharagraff 4.12 a) i g), ond mae cost yn ffactor perthnasol wrth wneud asesiad cyffredinol o les y cyhoedd.)

- Dylid gallu erlyn achosion mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion rheoli achosion yn effeithiol. Er enghraifft, mewn achos sy'n cynnwys nifer o bobl a ddrwgdybir, efallai y gellid erlyn y prif gyfranogwyr yn unig er mwyn osgoi achos rhy hir a chymhleth.

g) A oes angen diogelu ffynonellau gwybodaeth?

Mewn achosion lle nad yw imiwnedd lles y cyhoedd yn gymwys, dylid cymryd gofal arbennig wrth ddwyn erlyniad lle efallai y bydd angen rhoi manylion i'r cyhoedd a allai niweidio ffynonellau gwybodaeth, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogeledd cenedlaethol. Mae'n hanfodol y cedwir y fath achosion dan adolygiad parhaus.

Y Prawf Trothwy

5.1 Bydd y Prawf Trothwy yn cael ei ddefnyddio dim ond os yw'r sawl a ddrwgdybir yn cyflwyno risg mechnïaeth sylweddol ac nid yw'r holl dystiolaeth ar gael ar yr adeg pan fydd yn rhaid ei ryddhau o'r ddalfa oni bai y'i cyhuddir.

Pryd y gellir defnyddio'r Prawf Trothwy

5.2 Mae rhaid i erlynwyr benderfynu a fodlonir yr amodau dilynol:

a) nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i weithredu cam tystiolaeth y Prawf Cod Llawn; ac
b) mae sail resymol dros gredu y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael o fewn cyfnod rhesymol o amser; ac
c) mae difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith; ac
d) mae sail sylweddol barhaus i wrthod mechnïaeth yn unol â'r Ddeddf Mechnïaeth 1976 ac yn holl amgylchiadau'r achos mae'n gywir i wneud felly.

5.3 Ble na fodlonir unrhyw un o'r amodau uchod, ni ellir gweithredu'r Prawf Trothwy ac ni ellir cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir. Rhaid i swyddog y ddalfa benderfynu a ellir parhau i gadw'r unigolyn dan glo neu ei ryddhau ar fechnïaeth, gydag amodau neu hebddynt.

5.4 Mae dwy ran i broses ystyried tystiolaeth y Prawf Trothwy.

Rhan gyntaf y Prawf Trothwy – a oes amheuaeth resymol?

5.5 Mae rhaid i erlynwyr fod yn fodlon fod yna o leiaf amheuaeth resymol fod yr unigolyn i'w gyhuddo wedi cyflawni'r trosedd.

5.6 Wrth benderfynu hyn, rhaid i erlynwyr ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd. Gall hyn fod ar ffurf datganiadau gan dystion, deunydd neu wybodaeth arall, ar yr amod fod yr erlynydd yn fodlon:

a) ei fod yn berthnasol; ac
b) y gellir ei roi ar ffurf dderbyniadwy i'w gyflwyno yn y llys; ac
c) y gellid ei ddefnyddio yn yr achos.

5.7 Os bodlonir hyn, dylai'r erlynydd wedyn ystyried ail ran y Prawf Trothwy.

Ail ran y Prawf Trothwy - a oes modd casglu tystiolaeth ychwanegol i gael siawns realistig o euogfarn?

5.8 Maerhaid i erlynwyr fod yn fodlon fod sail resymol dros gredu y bydd yr ymchwiliad sy'n parhau yn darparu rhagor o dystiolaeth o fewn cyfnod rhesymol o amser, fel y bydd yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd yn gallu rhoi siawns realistig o euogfarn yn unol â'r Prawf Cod Llawn.

5.9 Rhaid i'r dystiolaeth ychwanegol fod yn dystiolaeth y gellir ei dynodi ac nid dim ond yn ddamcaniaethol.

5.10 Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rhaid i erlynwyr ystyried:

a) natur ac ehangder unrhyw dystiolaeth ychwanegol debygol, ac a fydd yn cael ei chaniatáu, a'r effaith a gaiff ar yr achos;
b) y cyhuddiadau y bydd yr holl dystiolaeth yn eu cefnogi;
c) y rhesymau pam nad yw'r dystiolaeth eisoes ar gael;
d) yr amser sydd ei angen i gael y dystiolaeth ychwanegol ac a fydd unrhyw oedi o ganlyniad yn rhesymol dan yr holl amgylchiadau.

5.11 Os bodlonir dwy ran y Prawf Trothwy, rhaid i erlynwyr weithredu cam lles y cyhoedd y Prawf Cod Llawn ar sail yr wybodaeth sydd ar gael bryd hynny.

Adolygu'r Prawf Trothwy

5.12 Rhaid parhau i adolygu'r penderfyniad i gyhuddo dan y Prawf Trothwy. Rhaid asesu'r dystiolaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyhuddiad yn dal yn briodol a bod cyfiawnhad dros barhau i wrthwynebu mechnïaeth. Rhaid gweithredu'r Prawf Cod Llawn cyn gynted â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn sicr cyn i'r cyfyngiad amser perthnasol ar gadw yn y ddalfa ddod i ben.

Dewis Cyhuddiadau

6.1 Dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sydd:

yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu a gefnogir gan y dystiolaeth;
yn rhoi pwerau addas i'r llys gael dedfrydu a gosod gorchmynion priodol ar ôl euogfarnu; ac
yn sicrhau bod yr achos yn cael ei gyflwyno yn glir a syml.

6.2 Golyga hyn na fydd erlynwyr bob amser yn dewis neu barhau â'r cyhuddiad mwyaf difrifol ble mae dewis.

6.3 Ni ddylai erlynwyr fyth fwrw ymlaen â mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i ychydig o gyhuddiadau. Yn yr un modd, ni ddylent fyth fwrw ymlaen â chyhuddiad mwy difrifol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i gyhuddiad llai difrifol.

6.4 Ni ddylai erlynwyr newid y cyhuddiad dim ond oherwydd y penderfyniad a wnaed gan y llys neu'r diffynnydd ynghylch ble y gwrandawir yr achos.

6.5 Rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau wrth i'r achos ddatblygu wedi'r cyhuddiad.

Ymdrin ag Achosion y Tu Allan i’r Llys

7.1 Gellir ymdrin ag achosion y tu allan i’r llys yn hytrach nag erlyn mewn llys os yw hynny’n ymateb priodol i’r troseddwr a/neu ddifrifoldeb a chanlyniadau’r troseddu.

7.2 Rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw ganllawiau perthnasol pan ofynnir iddynt roi cyngor ar rybuddiad syml, rhybuddiad amodol, unrhyw achos rheoleiddio priodol, cosb sifil neu gosbol, neu benderfyniad arall. Dylent sicrhau y cwrddir â’r safon briodol o dystiolaeth ar gyfer y penderfyniad penodol y tu allan i’r llys gan gynnwys, lle fo angen, addefiad o euogrwydd, ac y byddai’r fath benderfyniad yn bodloni lles y cyhoedd yn gywir.

Dull y Treial

8.1 Rhaid i erlynwyr dalu sylw i'r canllawiau cyfredol ar ddedfrydu a dyrannu wrth wneud argymhellion i'r llys am ble y dylid cyflwyno achos yn erbyn y diffynnydd.

8.2 Wrth ofyn i achos gael aros yn y llys ynadon, ni ddylid gwneud hynny o safbwynt cyflymdra yn unig. Ond dylai erlynwyr ystyried effaith unrhyw oedi tebygol os anfonir achos i Lys y Goron, a'r effaith bosibl ar unrhyw ddioddefwr neu dyst os ceir oedi gyda'r achos.

Lleoliad ar gyfer treial mewn achosion yn ymwneud â phobl ifanc

8.3 Rhaid i erlynwyr gofio y dylid clywed achosion yn ymwneud â phobl ifanc yn y llys ieuenctid, os oes modd. Dyma'r llys mwyaf addas i fodloni eu hanghenion penodol hwy. Dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu lle dylid gwrando achos person ifanc ar y cyd ag oedolyn er budd cyfiawnder y dylid clywed achos person ifanc yn Llys y Goron.

Derbyn Pleon Euog

9.1 Mae'n bosib y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai cyhuddiadau, ond nid i'r holl gyhuddiadau. Neu, mae'n bosib y byddant eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, cyhuddiad llai difrifol o bosib, oherwydd eu bod yn cyfaddef i ran o'r trosedd yn unig.

9.2 Ni ddylai erlynwyr dderbyn ple'r diffynnydd oni bai eu bod o'r farn y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y trosedd, yn enwedig os oes nodweddion sy'n gwaethygu'r trosedd. Ni ddylai erlynwyr byth dderbyn ple euog dim ond oherwydd bod hynny'n gyfleus.

9.3 Wrth ystyried a yw'r pleon a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau yr ystyrir buddiannau a, lle bo modd, safbwyntiau'r dioddefydd, neu mewn achosion priodol safbwyntiau teulu'r dioddefydd, wrth benderfynu a yw derbyn y ple er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

9.4 Rhaid esbonio i'r llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle bydd diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a ble gall hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, fe ddylid gwahodd y llys i wrando tystiolaeth er mwyn penderfynu'r hyn a ddigwyddodd, ac yna ddedfrydu ar sail hynny.

9.5 Os bydd diffynnydd wedi nodi cyn hynny y bydd yn gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna'n gwrthod cyfaddef y trosedd yn y llys, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyn am y trosedd hwnnw. Dylai erlynwyr esbonio i adfocad yr amddiffyniad ac i'r llys y gallai erlyn y trosedd hwnnw fod yn destun adolygiad pellach,gan ymgynghori â'r heddlu neu ymchwilwyr eraill ble bynnag y bydd yn bosibl.

9.6 Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried pleon a fyddai'n galluogi'r diffynnydd i osgoi'r ddedfryd orfodol leiaf. Pan gynigir pleon, rhaid i erlynwyr gofio hefyd y gellir gwneud gorchmynion ategol gyda rhai troseddau ond nid gydag eraill.

Ailystyried Penderfyniad i Erlyn

10.1 Fe ddylai pobl allu dibynnu ar benderfyniadau'r CPS. Fel arfer, os yw'r CPS yn dweud wrth y sawl a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd erlyniad, neu fod yr erlyniad wedi ei atal, ni fydd yr achos yn ailgychwyn. Ond o bryd i'w gilydd efallai bod rhesymau dros benderfyniad y CPS i wyrdroi penderfyniad i beidio ag erlyn neu i ymdrin â'r achos y tu allan i'r llys neu pan fydd yn ailgychwyn yr erlyniad, yn arbennig os yw'n achos difrifol.

10.2 Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys:

a) achosion pan fydd golwg newydd ar y penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir ac, er mwyn cynnal hyder yn y system cyfiawnder troseddol, dylid erlyn er gwaethaf y penderfyniad cynharach;
b) achosion sy'n cael eu hatal er mwyn casglu a pharatoi rhagor o dystiolaeth [sy'n debygol o fod ar gael yn y dyfodol cymharol agos]. Yn yr achosion hyn, bydd yr erlynydd yn dweud wrth y diffynnydd ei bod hi'n bosib y gallai'r erlyniad ddechrau eto;
c) achosion sy'n cael eu hatal oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle daw rhagor o dystiolaeth arwyddocaol i'r golwg yn ddiweddarach; ac
d) achosion yn ymwneud â marwolaeth ble mae adolygiad o ganlyniad i gasgliadau cwest yn dod i'r casgliad y dylid erlyn, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio ag erlyn.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurf electronig o'n gwefan www.cps.gov.uk

Mae copïau pellach o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a gwybodaeth am ieithoedd a fformatau amgen ar gael gan y CPS.

Cysylltwch â publicity.branch@cps.gsi.gov.uk neu drwy'r post yn:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain, SE1 9HS

© Hawlfraint y Goron